



Gofal Cymdeithasol **Cymru**  
Social Care **Wales**

# Fframwaith Gwella



### Manylion cyswllt

Gofal Cymdeithasol Cymru

South Gate House

Wood Street

Caerdydd

CF10 1EW

Ffôn: 0300 3033 444

Minicom: 029 2078 0680

E-bost: [gwybodaeth@gofal-cymdeithasol.cymru](mailto:gwybodaeth@gofal-cymdeithasol.cymru)

Twitter: @GofCymdeithasol

© 2019 Gofal Cymdeithasol Cymru

Cedwir pob hawl. Ni ellir atgynhychu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, ei storio mewn system adalw neu ei drosglwyddo mewn unrhyw ffurf neu drwy unrhyw fodd heb ganiatâd ysgrifenedig Gofal Cymdeithasol Cymru ymlaen llaw. Dylid anfon ymholiadau am atgynhychu y tu allan i'r cwmpas a ganiateir yn benodol gan y gyfraith at Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru yn y cyfeiriad a roddir uchod.

### Fformatau eraill:

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

Mae copïau o'r ddogfen ar gael mewn print bras neu fformatau eraill, os oes angen.

## Beth yw Fframwaith Gwella Gofal Cymdeithasol Cymru?

Mae Fframwaith Gwella Gofal Cymdeithasol Cymru'n nodi sut byddwn ni'n cyflawni ein nod strategol o arwain a chefnogi gwelliannau mewn gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae gwella'n fusnes i bawb ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i ni a'n partneriaid weithio mewn modd gwahanol. Mae'r gwaith a wnawn mewn partneriaeth yn allweddol o ran helpu i ategu uchelgeisiau:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Pam cael fframwaith?

Yn y pen draw, rydym ni eisiau cefnogi canlyniadau gwell i blant ac oedolion sy'n dibynnu ar ofal a chymorth, eu teuluoedd a'u gofalwyr yng Nghymru. Mae gwella gwasanaethau'n cynnwys unrhyw ddull sy'n creu budd. Mae uchelgeisiau yng Nghymru i wella'r gofal a chymorth mae pobl yn eu derbyn yn uchel – trwy'r fframwaith hwn, rydym ni eisiau nodi sut byddwn ni'n gweithio gydag eraill i gefnogi gwelliannau i wasanaethau.



## Egwyddorion sy'n sail i'n fframwaith gwella

Yn ein cynllun strategol, rydym ni'n nodi nifer o ffyrdd y byddem yn eu defnyddio i gyflawni ein gwaith. Mae'r rhain i gyd yn berthnasol i'n gwaith i gefnogi ac arwain gwelliannau i wasanaethau. Rydym ni wedi crynhoi rhai enghreifftiau yma:

Sut byddwn ni'n gweithio...	Beth mae hyn yn ei olygu o safbwynt ein rôl i wella gwasanaethau...
<b>Meddwl am y tymor hir</b>	Byddwn ni'n canolbwyntio ar gefnogi newid cynaliadwy a chadarnhaol yn y tymor hir, nid manteision tymor byr yn unig. Trwy ein trafodaethau am welliannau a'n gwaith i ganfod problemau neu dueddiadau posibl, byddwn ni'n ceisio helpu eraill i gydnabod cyfleoedd i wella a gweithredu arnynt.
<b>Integreiddio a chydweithio</b>	Byddwn ni'n gweithio gydag eraill i gynhyrchu a datblygu cynlluniau a dulliau, yn ogystal â rhannu gwybodaeth, i helpu'r sector i feddiannu gwella gwasanaethau a sicrhau ein bod ni'n gwneud y gorau o'r potensial i wella gwasanaethau yng Nghymru.  Byddwn ni'n gweithio gyda sefydliadau ac arweinwyr gwella lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
<b>Canolbwyntio ar ganlyniadau ac effeithiau</b>	Byddwn ni'n canolbwyntio ar y modd y gellir gwella ansawdd gwasanaethau ar gyfer pobl sy'n defnyddio gofal a chymorth. Byddwn ni'n chwilio am dulliau creadigol o ymdrin â heriau hirsefydlog, uchelgeisiau polisi, a blaenoriaethau strategol cenedlaethol a rhanbarthol, i helpu rhoi polisi cenedlaethol ar waith. Mae cefnogi datblygu sgiliau yn y gweithlu'n allweddol i hyn.  Byddwn ni'n ceisio tynnu sylw at faterion anodd yn hytrach na'u hosgoi, a byddwn ni'n rhoi dull hyblyg a dynamig ar waith wrth ymateb i anghenion y sector.
<b>Defnyddio ymchwil, tystiolaeth a data</b>	Byddwn ni'n defnyddio ac yn cyfarwyddo ymchwil, tystiolaeth a data er mwyn deall, diffinio a mesur y meysydd rydym ni'n dymuno'u gwella. Lle rydym ni'n gweithio mewn partneriaeth, byddwn ni'n sicrhau ein bod yn glir ynglŷn â sut rydym ni'n ychwanegu gwerth a beth yw natur benodol ein rôl.  Byddwn ni'n cynorthwyo'r sector a'n partneriaid i gasglu, defnyddio a deall y data, ymchwil a gwybodaeth sydd ar gael.
<b>Gwerthuso a meincnodi</b>	Byddwn ni'n mynd ati'n barhaus i werthuso ein dull er mwyn deall ble rydym ni'n gwneud cyfraniad cadarnhaol neu ddim.
<b>Clir ac atebol</b>	Byddwn ni'n glir yn ein hadroddiadau perfformiad ble rydym yn ceisio cefnogi newid a sut mae'r gwaith hwn yn mynd yn ei flaen.
<b>Cyfarwyddo a chysylltu, er mwyn rhannu a dysgu</b>	Er mwyn annog yr arfer o gyfnewid dysg, byddwn ni'n gweithio gyda'r sector er mwyn ei gyfeirio at wasanaethau a phartneriaid sy'n darparu tystiolaeth o arloesi ac ymarfer da.  Byddwn ni'n ceisio cysylltu'n barhaus gydag eraill, a dysgu oddi wrthynt, er mwyn cyfarwyddo ein dulliau a'n blaenoriaethau ein hunain, a byddwn ni'n agored o safbwynt rhannu dysg gydag eraill.
<b>Ymatebol a myfyriol</b>	Byddwn ni'n hyblyg a dynamig yn ein dull er mwyn ymateb i anghenion y sector, ac i flaenoriaethau strategol cenedlaethol a rhanbarthol. Os na fydd dull yn gweithio, bydd angen i ni roi stop arno, dysgu gan y gwaith, a newid y dull.  Rydym ni'n cydnabod yr angen i barhau i fod yn hyblyg ac ystwyth, a pheidio â gorchymyn sut caiff gwelliannau eu cyflawni. Yn hytrach, byddwn ni'n defnyddio amrywiaeth o offer a thechnegau sy'n briodol i'r maes a gaiff ei wella.  Rydym ni'n cydnabod y gall newidiadau bach iawn wneud gwahaniaeth mawr. Mae gwelliant yn broses barhaus o dwf i fod yn well nag ydym ni ar hyn o bryd.

## Ein cyfraniad at wella gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru

Er mwyn gwella'r canlyniadau ar gyfer plant ac oedolion sy'n dibynnu ar ofal a chymorth, ynghyd â'u teuluoedd a'u gofalwyr, byddwn ni'n canolbwyntio ein gwaith ar dri o feysydd lle y gallwn ychwanegu gwerth. Sef:

- gwella gwybodaeth a dealltwriaeth er mwyn cyfarwyddo dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- ysgogi a rhannu dysg sy'n deillio o ymarfer da ac arloesol
- cynorthwyo i ddatblygu'r gweithlu.

Er bod y cyfrifoldeb dros gyflawni gwelliannau a newid yn gorwedd gyda'r rhai sy'n darparu ac yn arwain gwasanaethau, mae dull gwella yn golygu system lle mae gofyn i bawb sy'n rhan ohono wneud newidiadau. Bydd ein rôl yn ceisio pwysleisio a thaflu goleuni ar brofiadau newydd o safbwynt pobl sy'n defnyddio gofal a chymorth, a'r rhai sy'n darparu'r gwasanaethau. Yn ei dro,

dylai hyn effeithio ar gredoau a gwerthoedd er mwyn esgor ar newid mewn gweithredoedd ac ymddygiad. Hyn, yn y pen draw, fydd yn creu newid cadarnhaol a pharhaol i blant ac oedolion sy'n defnyddio gofal a chymorth yng Nghymru.

Mae ymchwil yn dweud wrthym y dylai gwelliannau gael eu cyflwyno gan y rhai sydd agosaf at y rheng flaen, er mwyn cael newidiadau priodol a chynaliadwy, a gwella'r canlyniadau i blant ac oedolion sy'n dibynnu ar ofal a chymorth, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

Bydd ein holl waith gwella'n cael ei wneud mewn partneriaeth. Mewn rhai meysydd, efallai y byddwn ni'n cymryd arweiniad cenedlaethol i gefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau wrth ymwneud â her arbennig. Mewn meysydd eraill, fe fyddwn ni'n ysgwyddo rôl gefnogol, ddylanwadol neu gydweithredol. Mae pob dull yn gyfartal mewn pwysigrwydd, a byddwn ni'n nodi'r rôl a gymerwn wrth gwmpasu ein gwaith.

Dyma rhai enghreifftiau o ffyrdd y gallem eu rhoi ar waith i ymdrin â'n meysydd gwella:

Maes gwella gwasanaeth	Rhai enghreifftiau o beth y gallai hyn ei olygu'n ymarferol
<b>Gwella gwybodaeth a dealltwriaeth er mwyn cyfarwyddo dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhannu a chyfarwyddo data, ymchwil a gwybodaeth</li> <li>• Archwilio syniadau ac ymarfer newydd er mwyn gwella ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o faterion</li> <li>• Dylanwadu ar ymchwil a wneir yng Nghymru</li> </ul>
<b>Ysgogi a rhannu dysg sy'n deillio o ymarfer da ac arloesol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynorthwyo'r sector i rannu a dysgu ar sail ymarfer</li> <li>• Cynorthwyo a hyrwyddo rhwydweithiau dysgu a gwella</li> <li>• Cynnal y Gwobrau</li> <li>• Darparu gwybodaeth trwy gyfrwng llwyfannau ar-lein</li> <li>• Fforymau i reolwyr a gweithdai penodol i ategu rhannu ymarfer sy'n ymwneud â materion allweddol o fewn y sector</li> </ul>
<b>Cynorthwyo i ddatblygu'r gweithlu</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mentrau i wella gwybodaeth a sgiliau'r gweithlu</li> <li>• Rhaglenni datblygu'n ymwneud ag arwain a rheoli</li> <li>• Mentrau i ategu newidiadau mewn ymarfer ac ymddygiad</li> <li>• Darparu cyllid i gynorthwyo gyda datblygiad y gweithlu</li> <li>• Rheoleiddio'r gweithlu er mwyn cefnogi gwelliannau</li> </ul>

## Ein blaenoriaethau o safbwynt gwelliannau ar gyfer 2017 i 2022

Mae ein blaenoriaethau gwella cenedlaethol yn ymwneud â:

- phlant sy'n derbyn gofal
- dementia
- Gofal a Chymorth yn y Cartref.

Ymhellach, mae gennym ni thema drawsbynciol i ategu ymarfer sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

Rydym ni'n amlinellu manylion ein hymrwymiadau yn ein cynlluniau busnes blynyddol. Gallwch ddysgu mwy am ein gwaith yn: [gofalcymdeithasol.cymru/amdanom-ni/cynllun-strategol-a-gweithredol](https://gofalcymdeithasol.cymru/amdanom-ni/cynllun-strategol-a-gweithredol)



## Pennu blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol

Mae ein blaenoriaethau ar gyfer gwella gwasanaethau'n cyd-fynd â chylch pum mlynedd ein cynllun strategol, sy'n pennu rhaglenni hirdymor a beth maen nhw'n ei olygu i'r sector. Wrth ddatblygu ein cynllun strategol, byddwn ni'n ystyried ein blaenoriaethau ar gyfer gwella gwasanaethau trwy wneud defnydd o ddata, tystiolaeth a gwybodaeth amrywiol i nodi problemau a theuddiadau posibl. Er enghraifft:

- data'n deillio o asesiad anghenion y boblogaeth
- adolygiadau thematig a datganiadau blynyddol Arolygiaeth Gofal Cymru
- ein data a'n gwybodaeth reoleiddio ein hunain
- adroddiadau fframwaith perfformiad Llywodraeth Cymru, yn cynnwys profiadau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth
- cynlluniau rhanbarthol a chenedlaethol, yn cynnwys cynlluniau gweithredu ardaloedd
- hanfodion polisïau Llywodraeth Cymru
- adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad

- gwybodaeth sy'n deillio o adroddiadau cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol
- yr hyn a ddysgir yn sgil ymgysylltu ac adborth gan amrywiaeth o sefydliadau
- tystiolaeth a gwybodaeth am ymarfer da, a phryd y mae angen gwella'r ymarfer
- ymchwil.

Rydym ni'n dymuno parhau i fod yn ymatebol i anghenion a ddaw i'r amlwg, ac o'r herwydd, efallai y ceir materion neu flaenoriaethau yn y tymor byr y byddwn ni'n ceisio'u cefnogi, lle y ceir tystiolaeth o angen ymhlith y sector. Ar ôl i flaenoriaethau gael eu pennu, bydd y fframwaith hwn yn helpu i ddiffinio'r modd y byddwn ni'n gweithio gyda'n partneriaid i ymateb.

## Eisiau mwy o wybodaeth?

Os hoffech chi gael mwy o wybodaeth am ein fframwaith gwella neu ein blaenoriaethau gwella gwasanaethau, ewch i: [gofalcymdeithasol.cymru/gwella-gwasanaethau](https://gofalcymdeithasol.cymru/gwella-gwasanaethau)